**EITEM AR YR AGENDA: 17**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Mawrth 2010**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

**Adroddiad gan Colin Everett,**
**Clerc i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Ystyried yr adroddiad gan y Pwyllgor Safonau sydd ynghlwm.

### Cefndir

**2.** Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol. Er y diben hwn, fe gafodd y Pwyllgor gyfarfod ar 2il Chwefror 2009 i gytuno ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/09.

**3.** Mae pumed Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, sy'n cynnwys ei weithgareddau rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009, ynghlwm er ystyriaeth yr aelodau.

### Argymhellion

**4.** Bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

## Cefndir

Dyma chweched adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2010. Mae'r ddeddfwriaeth yn gorchymyn bod rhaid i bob Pwyllgor Safonau gyfarfod o leiaf unwaith ymhob blwyddyn galendr.

## Aelodaeth

Eleni, daeth cyfnod swyddi dau o'r aelodau i ben. Safodd Chris Bretherton-Watt a John Pollard i lawr ym mis Medi. Yn dilyn penderfyniad yng nghyfarfod blynyddol yr Awdurdod, penderfynwyd hysbysebu am aelodau newydd yn hytrach na rhoi cyfle i'r aelodau gael eu hailbenodi.

Rhoddwyd hysbyseb am aelodau annibynnol newydd yn y Daily Post ac ar wefan y Gwasanaeth. Cynhaliwyd cyfweliadau yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl ar Ragfyr 1af, a phenodwyd dau aelod newydd, sef Celia Blomeley and Jane A Eyton-Jones.

Felly, mae'r aelodaeth newydd fel a ganlyn:

<u>Aelodau annibynnol</u>
Mr Simon Fysh
Mr Samindre Soysa
Celia Blomeley
Jane A Eyton-Jones

<u>Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub</u>
Y Cynghorydd Glyn Williams
Y Cynghorydd Merfyn Thomas

## Cyfarfodydd a gynhaliwyd

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ar Chwefror 18fed 2010, ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol:

Simon Fysh
Celia Blomeley
Jane A Eyton-Jones
Y Cyng. Merfyn Thomas

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Samindre Soysa.

## Y Materion a drafodwyd

Trafodwyd y materion canlynol:

Yr eitem gyntaf ar yr agenda oedd enwebu Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd i'r Pwyllgor. Penodwyd Simon Fysh yn Gadeirydd a Samindre Soysa yn Is-Gadeirydd.

Bu'r pwyllgor yn adolygu rôl y Pwyllgor Safonau, a chytunwyd y byddai o leiaf dri chyfarfod y flwyddyn yn cael eu cynnal, a'r Pwyllgor yn cymryd rôl fwy rhagweithiol yn hytrach na dim ond un adweithiol.

Yn ddiweddar, roedd yr Ombwdsmon wedi cyhoeddi drafft cyntaf o bolisi cwynion unffurf i'w ddefnyddio gan bob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru; ar gyngor y Clerc, roedd yr aelodau'n cytuno y byddai'n beth defnyddiol i ystyried y polisi drafft yn y cyfarfod nesaf ac i adolygu polisi'r Awdurdod. Holodd yr aelodau ynglŷn â pholisi chwythu'r chwiban yn yr Awdurdod a'r Gwasanaeth, a chytunwyd y byddai gweithrediad y polisi yn rhywbeth i'w adolygu.

Mynegodd y Cadeirydd ei siom fod yr Awdurdod wedi penderfynu peidio â rhoi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau annibynnol. Esboniodd y Clerc y cefndir a'i gyngor i'r Awdurdod. Gellid gofyn i'r Awdurdod adolygu ei safbwynt, a gellid cyflwyno unrhyw achos dros rôl ehangach ar gyfer y pwyllgor i'r Awdurdod gan y Clerc a Chadeirydd y Pwyllgor. Teimlai'r Cadeirydd y byddai'n annog pobl o bob carfan o'r gymuned i wneud cais i ddod yn aelod annibynnol petai yna ystyriaeth ariannol.

## Cwynion yn erbyn aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaethpwyd unrhyw gwynion yn erbyn cynghorwyr mewn perthynas â'u rôl fel aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub. O'r herwydd, nid oedd unrhyw faterion wedi eu cyfeirio at y Pwyllgor i ymchwilio iddynt neu wneud penderfyniad yn eu cylch.

Er bod yr Aelodau'n cytuno y dylid llongyfarch yr Awdurdod am beidio â derbyn unrhyw gwynion ynglŷn ag aelodau a phosibilrwydd o dorri'r cod ymddygiad, roeddent yn ystyried na ellid rhagdybio bod hyn o ganlyniad i ymwybyddiaeth ymhlith pobl y gallent gwyno.

Roedd yr aelodau'n cydnabod y byddai angen iddynt gael hyfforddiant dwys a phenodol cyn unrhyw wrandawiad petai cwyn yn erbyn aelod yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau.

Teimlai'r aelodau y dylai'r Awdurdod gael hyfforddiant atgoffa ar y Cod Ymddygiad bob blwyddyn, a bod angen gwybodaeth ynglŷn â'r hyfforddiant a ddarparwyd hyd yn hyn yn yr awdurdodau cyfansoddol.

## Goblygiadau Ariannol

Nid oes gan y Pwyllgor Safonau ei gyllideb ei hun, ond y costau a fu yn ystod 2009/10 oedd:

| | |
|---|---|
| Gosod hysbyseb yn y Daily Post am aelodau annibynnol | £1337.00 |
| Cinio ar gyfer aelodau'r Awdurdod oedd yn cyfweld ymgeiswyr | £27.00 |

Y costau eraill a fu oedd costau teithio i'r cyfarfod ac adref, a'r amser a dreuliwyd yn y cyfarfod gan Aelodau a Swyddogion.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Cafodd y Pwyllgor wybod bod yr Awdurdod wedi cytuno i sefydlu Pwyllgor Safonau, ac roedd yr aelodau'n llwyr gefnogol i hyn.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn falch o nodi bod yr Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais am Freinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu'r Aelodau.

## Casgliad

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi'r adroddiad hwn, ac yn cefnogi rôl ragweithiol a helaethach ar gyfer y Pwyllgor.